# CYNGOR DINAS CAERDYDD

# CYFARFOD Y CABINET: 16 MAWRTH 2017

---

## ADDYSG: CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2017-2020

## ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

**EITEM AGENDA:9**

---

**PORTFFOLIO: ADDYSG (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)**

**Rhesymau dros yr Adroddiad hwn**

1. Nod yr adroddiad hwn yw cymeradwyo'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017 – 2020 ac mae'n cynnwys crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

**Cefndir**

2. Bob tair blynedd mae gofyn i bob awdurdod lleol gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg am dair blynedd. Cynllun sy'n manylu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio a gweithredu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg yn yr awdurdod yw'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

3. Roedd CSCA cyntaf Caerdydd ar gyfer 2014-2017. Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd buddsoddiad sylweddol a chynnydd mewn addysg Gymraeg yn y ddinas gan gynnwys:

   - 2012 - agor trydedd ysgol gyfun Gymraeg yng Nghaerdydd, Bro Edern, ym Mhen-y-lan.
   - 2013 - ysgol gynradd Gymraeg 3DM yn Nhreganna, Ysgol Treganna.
   - 2015 - cynnydd o 0.5dM (15 lle) yn Ysgol-y-Wern.
   - 2016 - ysgol gynradd Gymraeg 2DM newydd i Butetown, Ysgol Hamadryad, a meithrinfa newydd â 48 lle sy'n gyfatebol â rhai rhan amser yn Ysgol Glan Ceubal.

4. Bydd CSCA newydd Caerdydd ar gyfer 2017-2020. Ategir a llywir y cynllun gan Strategaeth Addysg Gymraeg gyfredol Llywodraeth Cymru (Ebrill 2010) a datganiad polisi 2016-17 (Mawrth 2016) ynghyd â strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hefyd yn rhan graidd o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog pum mlynedd Caerdydd (202017-2022).

5. Mae dyheadau CSAC Caerdydd yn unol â strategaeth pum mlynedd Caerdydd Ddwyieithog ac adlewyrchir hyn drwy ddatganiadau cenhadaeth a gweledigaethau ategol. Gweledigaeth CSCA Caerdydd yw:

> *Bydd system addysgol Caerdydd yn brif gymhellydd er mwyn sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg a chreu siaradwyr newydd er mwyn cynorthwyo gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.*

6. Cyflwynwyd canllaw Llywodraeth Cymru ar gynhyrchu Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg 2017-2020 i Adran Addysg Caerdydd ym mis Awst 2016 ar sail canllaw a gyflwynodd Gweinidogion Cymru dan adran 87 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r canllaw yn cynnig templed ar gyfer y cynlluniau ac mae'r mesurau safonol wedi eu manylu.

7. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cynnwys saith canlyniad (mae pump ohonynt yn parhau i ganolbwyntio ar bum canlyniad y Strategaeth Addysg 2010), sef:

   - **Canlyniad 1**
     Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu'n Gymraeg.

   - **Canlyniad 2**
     Mae rhagor o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth bontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

   - **Canlyniad 3**
     Rhagor o ddysgwyr o 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng Cymraeg.

   - **Canlyniad 4**
     Rhagor o ddysgwyr o 16-19 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

   - **Canlyniad 5**
     Rhagor o ddysgwyr gyda sgiliau gwell yn y Gymraeg.

   - **Canlyniad 6**
     Gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol (AAA).

   - **Canlyniad 7**
     Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

**Proses Ymgynghori**

8. Cafwyd cyfnod ymgynghori strategol o 8 wythnos rhwng 2 Rhagfyr 2016 a 27 Ionawr 2017.

9. Mae gan Lywodraeth Cymru restr o ymgynghoreion y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ymgynghori â nhw, awdurdodau lleol cyfagos, penaethiaid a chyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir, a'r corff crefyddol priodol os yw'r ysgol yn un grefyddol.

10. Ymhlith y rhanddeiliaid gwahoddwyd Cadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid ysgolion, Mudiad Meithrin, Meter Caerdydd, RhAG, awdurdodau lleol cyfagos, Consortiwm Canolbarth Y De, Colegau Addysg Bellach, yr Esgobaeth ac eraill i ymateb i'r ymgynghoriad. Gallai rhanddeiliaid eraill weld y ddogfen ar-lein.

11. Roedd y broses ymgynghori'n cynnwys:

- Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft ar wefan y Cyngor
- Dosbarthwyd y CSCA drwy e-byst i amryw randdeiliaid
- Cafwyd cyfarfodydd â phenaethiaid Cymru
- Cafwyd cyfarfodydd â Fforwm y Gymraeg mewn Addysg Caerdydd
- Anfonwyd dolen we i'r strategaeth drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor

12. Cynrychiolwyd y farn a fynegwyd drwy'r sianeli priodol ac o fewn cyfnod yr ymgynghoriad isod ac yn Atodiad 2.

13. Cafwyd 28 ymateb. Yn eu plith roedd ymatebion gan:

- Y Cyhoedd
- Cyrff Llywodraethu a Phenaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg ledled Caerdydd
- RhAG
- Mudiad Meithrin
- Menter Caerdydd
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas yr Iaith
- Ymgyrch TAG
- Prifysgol Caerdydd

14. Mynegwyd ystod o farn. Crynhowyd yr ymatebion i nodi themâu cyffredin, a oedd yn cynnwys y canlynol:

**Canlyniad 1 – Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu'n Gymraeg**

- Rhagor o addysg Gymraeg ar lefel cyn ysgol, y cylchoedd, ysgolion cynradd ac uwchradd gan gynnwys niferoedd derbyn a chapasiti a gyhoeddwyd
- Darpariaeth bresennol ac adnoddau ariannol.
- Goblygiadau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r galw am addysg Gymraeg
- Hyrwyddo
- Data a Rhagfynegiadau
- Hyfforddiant i staff rheng flaen
- Dalgylchoedd
- Cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac addysg Gymraeg

- Trafnidiaeth Dysgwyr

**Canlyniad 2 – Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith o symud i'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

- Cyfraddau trosglwyddo
- Trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn
- Canolfan Drochi yn y Gymraeg

**Canlyniad 3 a 4 – Rhagor o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau yn Gymraeg a mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau yn Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gweithle**

- Cymwysterau TGAU
- Cymraeg Ail Iaith

**Canlyniad 5 – Mwy o fyfyrwyr â sgiliau datblygedig yn y Gymraeg**

- Darpariaeth Lefel A
- Darpariaeth allgyrsiol
- Sector Addysg Uwch

**Canlyniad 6 – Darpariaeth Gymraeg i ddysgwyr ag ADY**

- Angen mwy o ddarpariaeth ADY yn enwedig o ran plant ag anghenion ymddygiadol

**Canlyniad 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygu proffesiynol parhaus**

- Rolau Arwain
- Ymarferwyr Addysgu
- Cynnwys Myfyrwyr

**Materion yn codi o'r ymgynghoriad**

15. Croesawodd mwyafrif yr ymatebion gynigion y Cyngor i ddatblygu, ehangu, a hyrwyddo addysg Gymraeg.

16. Ond roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd y ddogfen yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r angen i:

    - ddarparu digon o lefydd cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas ar bob cam, yn benodol o ran y CDLl
    - gwella argaeledd darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn y sector Cymraeg (yn benodol ynghylch darpariaeth ymddygiadol ADY)
    - ymrwymo ymhellach i sicrhau bod digon o lefydd ar gael mewn ysgolion uwchradd erbyn y bydd plant ysgolion cynradd Cymraeg yn symud i ysgolion uwchradd
    - sicrhau bod gweledigaeth gref yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni mewn partneriaeth i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y brifddinas fel rhan o'r targed cenedlaethol ehangach
    - sicrhau ffocws cryfach ar gamau gwella yn hytrach na datblygiadau diweddar

17. I gael crynodeb llawn o'r holl ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac arfarniad y Cyngor o bob mater a godwyd, gweler Atodiad 2. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi cynnwys newidiadau o ganlyniad i'r broses ymgynghori.

18. O ganlyniad i'r ymgynghoriad ychwanegwyd Datganiad Cenhadaeth i'r strategaeth i nodi dyhead y Cyngor i ddatblygu'r Gymraeg yn y ddinas a newidiwyd y Weledigaeth i atgyfnerthu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 1m o siaradwyr erbyn 2050. Diwygiwyd rhagfynegiadau a thargedau hefyd ar ôl cael adborth.

19. I gael rhestr lawn o'r holl newidiadau a wnaed i'r CSCA ar ôl ymgynghori, gweler Atodiad 3.

## Gweithredu a Monitro

20. Mae'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi ystyried y WESP a dogfennau cysylltiedig. Roedd y Pwyllgor yn falch o weld yr adroddiad, a gwnaethant gytuno i gymeradwyo'r adroddiad i'r Cabinet. Mae cyngor y Pwyllgor ar yr adolygiad o'r adroddiad i'w weld mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor i'r Aelod Cabinet dros Addysg yn Atodiad 4.

21. Mae gan y Gweinidog y pwerau canlynol i gymeradwyo'r cynllun fel y'i cyflwynwyd, ei gymeradwyo ag addasiadau neu ei wrthod a pharatoi un arall. Cyflwynwyd drafft o'r CSCA eisoes i Lywodraeth Cymru a chaiff y ddogfen derfynol ei chyflwyno ddiwedd Mawrth.

22. Yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r strategaeth, byddai angen ei rhoi ar waith o 1 Ebrill 2017. Ar ôl hynny rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r cynllun (neu gynllun diwygiedig) erbyn 1 Mehefin 2017 drwy ei osod ar wefan yr awdurdod lleol, rhyddhau copïau o'r cynllun i'r cyhoedd allu eu gweld yn swyddfeydd yr awdurdod lleol, ac unrhyw leoedd eraill sy'n briodol.

23. Rhaid i'r awdurdod lleol ddiwygio'r CSCA bob blwyddyn i gyfleu cynnydd a chynnwys unrhyw newidiadau angenrheidiol i fwrw targedau yn ystod cyfnod gweithredu tair blynedd y Cynllun. Dylai cynlluniau diwygiedig gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 20 Rhagfyr bob blwyddyn.

24. Mae'r Gweinidog wedi awgrymu bod bwriad i adolygu'r CSCAau fel rhan o adolygiad ehangach i'r fframwaith deddfwriaethol i'r Gymraeg fel y nodir yn 'Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / 18/01/2014 Rhif 244'.

## Rheswm dros yr Argymhellion

25. Mae drafftio a chyhoeddi'r CSCA yn ofyniad statudol a dilynwyd holl ganllawiau a rheoliadau Llywodraeth Cymru.

26. Gan ystyried holl ymatebion yr ymgynghoriad a'r canllawiau a roddodd Llywodraeth Cymru, mae'r CSCA bellach yn ddogfen rhanddeiliaid gyflawn ac o ganlyniad argymhellir i Gabinet y Cyngor gymeradwyo Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd 2017-2020.

**Goblygiadau Ariannol**

27. Nid oes goblygiadau ariannol yn deillio'n uniongyrchol o gymeradwyo'r cynllun. Bydd unrhyw gamau gweithredu a gyflawnir o ran y cynllun sy'n arwain at gostau i ysgolion unigol neu'r gyfarwyddiaeth Addysg yn gorfod cael eu talu o ddyraniadau adnoddau presennol.

**Goblygiadau Cyfreithiol (yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)**

28. Dan Ddeddf Addysg 1996, mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol gyffredinol i hyrwyddo safonau uwch mewn addysg ac i ystyried dewis rhieni sy'n cynnwys dewis am addysg Gymraeg.

29. Mae Adran 84 ac 85 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Gymraeg (Cymru) 2013 yn nodi'r rhwymedigaethau statudol i'r holl awdurdodau lleol baratoi, cyflwyno, cyhoeddi ac adolygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

30. Rhaid i'r Cyngor hefyd fodloni dyletswyddau sector preifat dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau penodol sector cyhoeddus Cymru). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, wrth wneud penderfyniadau rhai i Gynghorau roi sylw dyledus i'r angen i (1) gwaredu gwahaniaethu anghyfreithlon, (2) datblygu cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion a ddiogelir. Y nodweddion a ddiogelir yw:
    - Oedran
    - Ailbennu rhywedd
    - Rhyw
    - Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
    - Anabledd
    - Beichiogrwydd a mamolaeth
    - Priodas a Phartneriaeth Sifil
    - Cyfeiriadedd rhywiol
    - Crefydd neu gred - gan gynnwys diffyg cred

31. Diben yr Asesiad O'r Effaith Ar Gydraddoldeb yw sicrhau bod y Cyngor wedi deall effeithiau posibl y cynnig o ran cydraddoldeb fel y gall sicrhau ei fod yn gwneud penderfyniadau cymesur a rhesymegol o ran ystyried ei ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus. Rhaid i'r Cyngor fod yn ystyriol o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar bolisi ac ystyried yr effaith ar y Gymraeg, yr adroddiad a deliau Asesiad O'r Effaith Ar Gydraddoldeb gyda'r holl rwymedigaethau hyn.

32. I weld yr Asesiad O'r Effaith Ar Gydraddoldeb ar gyfer y CSCA gweler Atodiad 5.

**Goblygiadau Adnoddau Dynol**

33. Er nad oes goblygiadau uniongyrchol Adnoddau Dynol yn deillio o'r adroddiad hwn, bydd Gwasanaethau Pobl Ad yn dal i gefnogi Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu ysgolion Cymraeg i fynd i'r afael ag unrhyw heriau recriwtio y gallent ddod ar eu traws. Bydd cyngor hefyd yn dal ar gael o ran cynllunio'r gweithlu a strwythurau staffio ysgol gyfan.

**<u>Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb</u>**

34. Cwblhawyd Asesiad O'r Effaith Ar Gydraddoldeb a daw'r i'r casgliad y câi CSCA 2017 – 2020 effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y Gymraeg.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Cabinet yn Cymeradwyo CSCA Cyngor Caerdydd 2017-2020 i'w roi ar waith o 1 Ebrill 2017.

**NICK BATCHELAR**
Cyfarwyddwr
10 Mawrth 2017

*Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr atodiadau canlynol:*

Atodiad 1 - CSCA 2017-2020
Atodiad 2 – Crynodeb o Ymatebion Ymgynghori CSCA
Atodiad 3 – Rhestr o newidiadau a wnaed i'r CSCA
Atodiad 4 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc
Atodiad 5 – Adnodd Sgrinio Statudol / Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

*Ystyriwyd y dogfennau cefndirol canlynol:*

- Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru 2012-17 a'r strategaeth ddrafft: Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (2016).
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Gymraeg (Cymru) 2013.
- Strategaeth Addysg Gymraeg gyfredol Llywodraeth Cymru (Ebrill 2010) a datganiad polisi ar gyfer 2016-17 (Mawrth 2016)
- Ailysgrifennu'r Dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru, 2014.
- Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu Yng Nghymru, yr Athro Donaldson, Chwefror 2015
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Caerdydd 2016-18 a Strategaeth Partneriaeth Integredig Beth Sy'n Bwysig
- Caerdydd 2020: gweledigaeth newydd i addysg yng Nghaerdydd.
- Caerdydd Ddwyieithog: Strategaeth 5 mlynedd i'r Gymraeg, 2017 – 2022.